# Diweddariad Chwarterol Ystadegau Cymru

# Medi 2017

**Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau chwarterol i ddefnyddwyr ystadegau o Gymru ar ein datblygiadau, ymgyngoriadau a chynlluniau diweddaraf.**

**Ceir rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar ar ein calendr cyhoeddiadau**

## Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb

**Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD)**
Rydym wedi newid ein tudalennau gwe ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ac ar y data dangosyddion i helpu defnyddwyr i gael yr hyn mae arnynt ei eisiau yn gyflymach, a'u helpu i gael gwell dealltwriaeth o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a phryd y caiff popeth ei gyhoeddi. A fyddech cystal â rhoi gwybod i ni beth yw eich barn, y da a'r drwg! Bydd y diweddariad nesaf ar ddata dangosyddion yn cael ei gyhoeddi fis Rhagfyr 2017.

**Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog**
Ym mis Mehefin, gwnaethom gyhoeddi ein dadansoddiad newydd o'r gyfres Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog, gan edrych ar nodweddion teuluoedd, statws economaidd, deiliadaeth, ethnigrwydd a ffactorau eraill. Roedd hyn yn cynnwys tablau StatsCymru newydd a Sleidiau'n cynnwys siartiau a phwyntiau allweddol.

**Diogelwch Cymunedol**
Cyhoeddwyd Ystadegau Achosion Tân ac Achub ym mis Awst – gyda dadansoddiad ychwanegol ar Ddigwyddiadau'r Gwasanaeth Arbennig, sy'n cynnwys gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, digwyddiadau llifogydd, digwyddiadau meddygol ac ati.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â
ystadegau.iechyd@llyw.cymru

## Iechyd

**Arolwg Cenedlaethol Cymru: Iechyd y boblogaeth**
Mae canlyniadau cyntaf iechyd y boblogaeth o'r Arolwg Cenedlaethol wedi cael eu cyhoeddi. Mae Arolwg Iechyd Cymru nawr yn cael ei gynnwys yn Arolwg Cenedlaethol Cymru.

**Cyhoeddiadau nodedig eraill**
Cyhoeddiad cyntaf swyddogol o ystadegau set ddata'r dangosyddion mamolaeth.
Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cyhoeddi ei hystadegau marwolaethau a genedigaethau blynyddol ar gyfer 2016.

Mae'r holl wybodaeth ar gael yma:
Gwefan Ystadegau a Ymchwil
I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
ystadegau.iechyd@llyw.cymru

## Cyhoeddi Llesiant Cymru 2016-17

Ar 25 Medi, cyhoeddwyd adroddiad statudol cyntaf Llesiant Cymru ar gyfer 2016/17. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ein cynnydd fel cenedl tuag at gyflawni'r saith nod llesiant y cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru arnynt yn 2015.

Mae'r adroddiad yn cynnwys
- adroddiad cynnydd yn erbyn pob un o'r 7 nod llesiant gan ddefnyddio data yn ymwneud â dangosyddion cenedlaethol perthnasol a gwybodaeth ychwanegol fel cyd-destun lle bo'n briodol.
- disgrifiad a siart o'r tueddiadau diweddar yn erbyn pob un o'r 46 o ddangosyddion cenedlaethol Cymru, gyda dolenni at y ffynonellau data, yn defnyddio adroddiadau Power BI wedi eu cysylltu'n uniongyrchol o ddata agored StatsCymru

Rydan ni yn croesawu unrhyw adborth ar yr adroddiad a cyn bo hir bydden yn cyhoeddi blog a holiadur byr i ddefnyddwyr.

## Addysg a Sgiliau

**Mesurau cyson ar gyfer dysgu ôl-16 yng Nghymru**

Crynodeb o ymatebion i'r ymarfer ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf. Yn dilyn hyn, mae swyddogion polisi yn cynnal cyfres o gyfarfodydd ag awdurdodau lleol ac ysgolion i drafod y cynlluniau'n fanylach. Cafodd data arbrofol ei ryddhau i golegau unigol ac ysgolion gyda chweched dosbarth (nid i'w gyhoeddi) er mwyn rhoi syniad o'r allbynnau ar sail y mesurau cyrhaeddiad arfaethedig.

## Yr Iaith Gymraeg

**Mesur y daith tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg**

Cafodd y strategaeth Gymraeg newydd Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg ei chyhoeddi yn ddiweddar ac mae'n cynnwys targed uchelgeisiol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae blog diweddar yn disgrifio sut aethon o gwmpas i fesur sut y gallem gyrraedd y targed hwn o bosibl.

Mae'r amcanestyniadau demograffeg yn unig, a'r taflwybr defnyddiwyd yn y strategaeth ar gael ar StatsCymru.

## Yr Economi a'r Farchnad Lafur

**Cyllid a Thollau EM**
Roedd datganiad Ystadegau Masnach Ranbarthol Chwarter 2 2017 i fod i gael ei gyhoeddi ar 7 Medi 2017, ond mae Cyllid a Thollau EM wedi gohirio hynny er mwyn caniatáu rhagor o amser i ddatrys problemau sydd wedi'u canfod yn y broses o uno data Cyllid a Thollau EM â'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau, ac er mwyn cwblhau gwiriadau hanfodol i sicrhau ansawdd.

**Sectorau â Blaenoriaeth**
Bydd ystadegau am y sectorau â blaenoriaeth yn cael eu diweddaru nesaf ar 27 Medi 2017.

**Ymgynghoriad**
Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar allbynnau ystadegol yr economi a'r farchnad lafur. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei dosbarthu pan fydd wedi mynd yn fyw.

## Rhannu data

**Ymgynghoriad ar Godau Ymarfer ar gyfer rhannu data o dan y Ddeddf Economi Digidol 2017**

Mae Llywodraeth y DU ar hyn o bryd yn ymgynghori ar agweddau o ddarpariaethau rhannu data a oedd wedi dod i rym drwy'r Ddeddf Economi Digidol 2017 (gweler papur briffio gynharach).

Mae hyn yn cynnwys ymgynghoriad ar Godau Ymarfer ynglŷn â defnydd o'r data ar gyfer cyflawni gweithredol, defnyddio data cofrestru sifil, achredu ymchwilwyr, a newidiadau i systemau data a ddefnyddir i gyflenwi data at ddibenion ystadegol.

Gan fod y Ddeddf yn berthnasol i Gymru, mae'n bwysig bod awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru yn ystyried goblygiadau'r Codau Ymarfer ar eu gwaith.

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael yma.

**Yr Amgylchedd a Thai**

**Arolwg Cyflwr Tai Cymru**
Llwyddwyd i gynnal peilot o drefn a systemau'r arolwg ym mis Mai. Dechreuodd y gwaith maes ar ddechrau mis Awst a bydd yn dod i ben fis Ebrill 2018. Y nod yw y bydd y canlyniadau cyntaf ar gael yn ystod hydref 2018, gydag amcangyfrifon tlodi tanwydd wedi'u diweddaru erbyn diwedd 2018. Mae ymgynghoriad â rhanddeiliaid a defnyddwyr wedi'i gynllunio ar gyfer diwedd eleni er mwyn penderfynu ar y ffordd orau o ledaenu'r data.

**Adnodd Dadansoddi'r Stoc Tai ar gyfer Cymru (y 'Gronfa Sylfaen Anheddau' gynt)** Mae rheolwr prosiect wedi cael ei benodi i arwain y ffrwd hon o waith er mwyn parhau i ddatblygu'r adnodd er mwyn cysylltu data am nodweddion, ffabrig, cyflwr, ac effeithlonrwydd ynni y stoc tai yng Nghymru. Bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â chanlyniadau Arolwg Cyflwr Tai Cymru i ddarparu model gwell o ddata'r arolwg i lefel ddaearyddol is yn ogystal â data mwy diweddar na'r hyn sydd ar gael o arolygon achlysurol ar gyflwr tai.

**Datganiadau Ystadegol ar Dai**
Datganiadau blynyddol ar y pynciau 'Gwerthiannau Tai Landlordiaid Cymdeithasol, 2016-17' ; 'Digartrefedd yng Nghymru 2016-17' a 'Stoc Tai Landlordiaid Cymdeithasol a Rhent ar 31 Mawrth 2017' yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst 2017.

Rydym wedi parhau i weithio gyda chydweithwyr ym maes polisi, darparwyr data a rhanddeiliaid allweddol fel CLILC i wella ansawdd a chysondeb y data sy'n cael ei gasglu a'i gyhoeddi am ddigartrefedd statudol. Ar ôl trafod â'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, sef cangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig, daeth y dad-ddynodiad Ystadegau Gwladol dros dro i ben ym mis Gorffennaf 2017. Bydd y Cyfrif Cenedlaethol blynyddol o Gysgu Allan yn cael ei gynnal yn gynnar fis Tachwedd 2017, a bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar 1 Chwefror 2018.

Mae'r prosiectau ymchwil tai canlynol ar y gweill ar hyn o bryd:

- **Prosiect Data Gweinyddol ar Gefnogi Pobl** - mae hwn yn brosiect tair blynedd gydag adroddiadau blynyddol.
- **Gwerthuso darpariaeth o Ofal Ychwanegol** yng Nghymru.
- Gwerthusiad o'r newidiadau a wnaed i'r **Ddeddfwriaeth Digartrefedd** (Deddf Tai (Cymru) 2014).
- Gwerthuso **Rhentu Doeth Cymru** (cofrestru a thrwyddedu landlordiaid yng Nghymru) - cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf ym mis Tachwedd 2016, a bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2017.
- Gwerthuso'r **gwasanaethau digartrefedd sydd ar gael i oedolion sy'n gadael sefydliadau diogel i oedolion** - mae disgwyl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi yn 2018.
- Adolygiad o'r **polisi ar gyfer rhentu tai cymdeithasol** - disgwylir yr adroddiad terfynol yn 2018.

Mae pob adroddiad ar ymchwil tai ar gael yma: Gwefan Ystadegau a Ymchwil

**Datganiadau Ystadegol am yr Amgylchedd**
Cyhoeddwyd data dros dro ar reoli gwastraff trefol awdurdod lleol ar gyfer Chwarter 4 2016-17 ar 24 Awst. Bydd data terfynol ar gyfer 2016-17 yn cael ei gyhoeddi fis Hydref 2017.

**Ystadegau Amaethyddol prawf wedi cael eu hychwanegu at StatsCymru**
Ym mis Awst, ychwanegwyd rhywfaint o ddata ar ystadegau amaethyddol at StatsCymru am y tro cyntaf. Mae'r data'n ymwneud ag amcangyfrifon ar gyfer 2014, ond y prif nod yw profi i ba raddau y byddai rhyddhau data o'r fath yn werthfawr i ddefnyddwyr. Rydym yn gofyn am adborth ar fanylion y dadansoddiadau sy'n cael eu dangos a'r categorïau sydd ynddynt.

ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Arolwg Cenedlaethol**

**Canlyniadau a dadansoddiad 2016-17**

- Ar 28 Mehefin, gwnaethom gyhoeddi'r datganiad cyntaf o arolwg 2016-17, ac mae tablau a siartiau'n cyd-fynd ag ef yn ein dangosydd canlyniadau Excel. Yn dilyn hyn, bydd cyfres o allbynnau ar bynciau penodol yn cael eu cyhoeddi. Gellir gweld rhestr o'r bwletinau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol ar wefan yr Arolwg Cenedlaethol
- Rydym wedi cyhoeddi bwletin ar Fynediad i'r rhyngrwyd a gwasanaethau cyhoeddus ar-lein yn seiliedig ar ganlyniadau 2016-17.
- Bydd bwletinau ar 'Iechyd plant - ffordd o fyw' ac 'afiechydon' yn cael eu cyhoeddi ar 20 Medi, a bydd 'Iechyd meddwl a llesiant', 'rhwystrau a wynebir gan bobl anabl' a 'celfyddydau, safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd a llyfrgelloedd' yn cael eu cyhoeddi fis Hydref.

**Arolwg Cenedlaethol - 2017-18**

- Mae Arolwg Cenedlaethol 2017-18 yn mynd rhagddo ar hyn o bryd; mae'r holiadur wedi cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

**Arolwg Cenedlaethol – 2018-19**

- Mae'r cwestiynau newydd y cynigir eu cynnwys yn 2018-19 wedi cael eu profi'n wybyddol yn ddiweddar, ac mae'r holiadur wrthi'n cael ei lunio'n derfynol fel ei fod yn gallu cael ei raglennu a'i brofi ymhellach gan gontractwr yr arolwg.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr arolwg ar wefan yr Arolwg Cenedlaethol, neu drwy gysylltu â arolygon@llyw.cymru

**Trafnidiaeth**

**Cyhoeddiadau:**
Rydym wedi cyhoeddi datganiadau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth rheilffyrdd, defnydd o orsafoedd rheilffyrdd, cerbydau gwasanaeth cyhoeddus, trafnidiaeth awyr, trafnidiaeth môr, cofnodion yr heddlu o anafusion ffyrdd, anafusion seiclwyr, anafusion beicwyr modur, ac anafusion pobl ifanc ar y ffyrdd.

**Stats Cymru**
Mae ychwanegion diweddar i Stats Cymru yn cynnwys data am drafnidiaeth rheilffyrdd, cerbydau gwasanaeth cyhoeddus, damweiniau ffyrdd, anafusion a damweiniau ar lefel unigol.

**Data TrafficMaster:**
Yn dilyn cyflymder cerbydau ar draffyrdd Cymru, rydym yn bwriadu datblygu dadansoddiad tebyg ar yr A55.

**Ymgynghoriad Trafnidiaeth**
Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar allbynnau ystadegol trafnidiaeth. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei dosbarthu pan fydd wedi mynd yn fyw.

## Manylion Cyswllt ar gyfer Ystadegau Llywodraeth Cymru

**Ymholiadau cyffredinol yn ymwneud ag ystadegau**
E-bost: desg.ystadegau@llyw.cymru Ffôn: 03000 604400

**Yn benodol i'r pwnc**
http://llyw.cymru/statistics-and-research/about/contacts-statistics/?lang=cy

**Twitter**
https://twitter.com/ystadegaucymru

**Gwasanaeth newyddion a rhybuddion e-bost Llywodraeth Cymru**
http://llyw.cymru/news-alerts/?lang=cy

**Ymholiadau Gweinyddol**
E-bost GweinydduGGD@llyw.cymru